25-07-14(b)

**Eitem: 14**

**Teitl:** Adroddiad y Cadeirydd ar Daliadau'r Gweithlu a Thelerau Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Angen gweithredu / Action required** | Er gwybodaeth |
| **Amseru / Timing** | Arferol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi cynnwys yr adroddiad hwn |
| **Risg / Risk** | **CR12 – Rhwymedigaethau Statudol** – sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol ar gyfer llywodraethu'r gweithlu.<br>**CR14 – Ein Pobl** – Risg i ddarparu ein gwasanaethau oherwydd salwch uchel staff a lefelau lles is oherwydd llwyth gwaith uchel.<br>Mae hefyd yn cyd-fynd ag **Archwaeth Risg RA8** – awydd brwd i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well. |
| **Cyllid / Finance** | Dim goblygiadau ariannol i'r adroddiad hwn. Ond gallai polisi sydd ar ddod a nodwyd yn y papur gael goblygiadau ariannol yn y dyfodol. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective** | I dyfu a gwella fel sefydliad |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes angen unrhyw gamau penodol gan mai adroddiad diweddaru yw hwn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant yn nodweddion ym mhopeth a wnawn gyda'n pobl yn Llais. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☐<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

25-07-14(b)

| | |
|---|---|
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Dim trafodaethau blaenorol i gyfeirio atynt – dyma ddiweddariad ar yr hyn a drafodwyd ac a adroddwyd yng nghyfarfod blaenorol Pwyllgor WRATS. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Grace Quantock, Cadeirydd, Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth |
| **Dyddiad / Date** | 18 Gorffennaf 2025 |

**Cefndir / Background**

Mae'r adroddiad hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr hyn a drafodwyd ac a adroddwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth y Gweithlu, a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2025.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod unwaith y chwarter.

**Manylion / Detail**

**Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth y Gweithlu – Crynodeb o'r Cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2025**

Cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth y Gweithlu ar 16 Gorffennaf 2025. Roedd yr agenda yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- Diweddariad Pobl a Dangosfwrdd Pobl
- Adroddiad Diweddaru Polisi
- Cytuno ar Gynllun Ymlaen Llaw
- Adroddiad y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2024/25

Gan nad oedd cworwm yn y cyfarfod, adolygodd a thrafododd yr aelodau'r eitemau, ond ni wnaed unrhyw benderfyniadau ffurfiol. Bydd cyfle gan aelodau absennol i wneud sylwadau ar bob trafodaeth/papur a bydd eitemau y mae angen eu cymeradwyo yn cael eu dilyn i fyny.

**Diweddariad pobl a dangosfwrdd**

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y Tîm Pobl a'i sefyllfa staffio bresennol. Ar adeg y cyfarfod:

- Llenwyd 2 allan o 4 swydd yn barhaol.
- Gadawodd un aelod o'r tîm drwy'r Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (VERS).
- Gadawodd aelod arall er mwyn dilyn cyfle gyrfa newydd.
- Bydd un swydd wag (gyda disgrifiad swydd newydd) yn cael ei hysbysebu yn fuan ar ôl cyfieithu.

- Mae'r swydd wag olaf bellach wedi'i llenwi, gyda'r Rheolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol newydd yn dechrau ar 16 Gorffennaf.

Roedd diweddariad ar yr hyn a ddigwyddodd ym mis Ebrill i fis Mehefin 2025, yn ogystal â diweddariad ar y cynnydd ar gysoni rolau ar draws Llais, yn dilyn argymhellion o'r Archwiliad Mewnol Llywodraethu Rhanbarthol diweddar a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt drwy'r Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol.

Dangosodd y Dangosfwrdd Pobl, sydd hefyd wedi'i gynnwys ym mhapurau cyfarfod y Bwrdd hwn:

- Gwelliannau yn nifer y bobl sy'n cwblhau eu dysgu electronig,
- Gwelliant yn nifer y bobl sy'n dilyn y broses cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith, a
- Chynnydd ar gwblhau gwerthusiadau staff, er bod angen gwaith pellach.

Trafododd y Pwyllgor hefyd sut mae timau, yn ogystal ag unigolion, yn cael eu cefnogi pan fydd cydweithwyr i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch hirdymor.

**Diweddariad polisi**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar 2 bolisi newydd sydd ar ddod.

- Polisi Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol
- Polisi Atal Aflonyddu Rhywiol

Mae gan y polisi Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol oblygiadau ariannol i Llais. Ond nid yw hyn yn berthnasol i'w nodi nawr. Mae'r polisi'n ofynnol ar gyfer cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, ac mae'n darparu amser i ffwrdd â thâl ychwanegol i weithwyr sydd â pherthnasoedd rhiant neu bersonol â babi sydd angen gofal meddygol ar ôl ei eni.

Mae'r polisi atal aflonyddu rhywiol yn ddyletswydd newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle.

Mae'r ddau bolisi yn cael eu hymgynghori â staff ac undebau llafur.

**Cynllun ymlaen llaw**

Adolygodd y Pwyllgor ei gynllun ymlaen llaw ar gyfer gweddill y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys Adolygiad Effeithiolrwydd Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer Hydref 2025.

**Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2024/25**

Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gyfer 2024/25. Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol yn fodlon ar y cynnwys, yn amodol ar gynnwys paragraff ychwanegol yn cydnabod bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ein gofynion cyfreithiol ar gyfer adrodd ar fylchau cyflog yn unig, a bod pobl â nodweddion gwarchodedig eraill hefyd yn cael eu heffeithio gan fylchau cyflog. Fodd bynnag, gan nad oedd cworwm yn y cyfarfod, ceisir penderfyniad i argymell cymeradwyo'r adroddiad i'r Bwrdd naill ai:

- Drwy e-bost, neu
- Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn dibynnu ar derfynau amser adrodd.